Yng Ngwesty'r Emlyn y bu cangen **Capel Iwan** yn dathlu'r deugain. Mair Evans, y llywydd dorrodd y gacen a Tegwen Morris, Cyfarwydd-wraig Genedlaethol, oedd y siaradwraig wadd.

Gwledd i'r synhwyrau oedd achlysur dathlu 30 oed cangen y **Fali**, Ynys Môn eleni – gloddest o hŵyl a chân yng nghwmni Hogia Bodwrog yn Nhafarn y Gors. Diolchodd Audrey Owen i Ann Hilyer am y deisen benblwydd odidog ac i Jean Roberts am y blodau hardd. Ymlaen at 2019 a dathlu'r deugain yn awr!

Yn Mwyty Mawddach, Llanelltyd, y bu Cangen **Y Bermo** a'r Cylch yn dathlu pen-blwydd 30ain oed y gangen ym mis Medi. Cawsant gwmni Sylwen Davies, Llywydd Anrhydeddus y mudiad.

clecs o'r clybiau

Clwb Gwawr Llanymddyfri

Dyma nhw ar do Plas Dinefwr! Cawsant noson i'r brenin yng nghwmni Emyr Evans, tywysydd yr Ymddiredolaeth Genedlaethol, a fu'n dangos rhai o drysorau'r Plas sydd y 'Tu ôl i'r Llenni'. Roedd Emyr yn arbennig, a'i wybodaeth yn eang iawn, gan wneud popeth mor ddiddorol.

Clwb Gwawr Cwm-ann

Criw bywiog Clwb Cwm-ann yn ymarfer canu – ar gyfer 'Côr Cymru 2011'?

Clwb Gwawr y Wiber, Castell Newydd Emlyn

Aelodau'r clwb yn mwynhau'u hunain ar daith gerdded o Aberporth i Dresaith. Mae tymor llawn bwrlwm o'u blaenau yn 2009-10, yn cynnwys ymweld â Theatr Mwldan, Aberteifi; y Sgubor Harddwch; Gwesty'r Cliff, Gwbert a noson yn gwylio rasys ceffylau yn Ffos-las.

Clwb Gwawr Glyndŵr

Cafodd y Clwb Gwawr noson i'w chofio ar ei noson gynta'n ôl ar ôl yr haf. Trefnwyd 'Coctels a Chwis' yn Y Plas, Machynlleth. Roedd y noson yn fwrlwm o weithgaredd a chroesawyd aelodau newydd i'n plith . Cafwyd taith hynod o fusneslyd a diddorol o gwmpas y Ganolfan Gymunedol newydd sbon sydd i agor yno yn yr hydref.
Yn y llun mae'r criw hwyliog yn cymdeithasu yng Nghaffi'r Plas.